OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 56

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024

**Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Ionawr 2024.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" yn adran 1(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992");

ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**1**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992.

(**1**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9), O.S. 2022/51 (Cy. 19) ac O.S. 2023/47 (Cy. 6).